# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

## VTCT Tystysgrif Mynediad i TherapÃ¯au Esthetig Lefel 3



### Yn gryno

Cymhwyster therapi harddwch yw'r Dystysgrif VTCT (ITEC) Lefel 3 mewn Mynediad i Therapïau Esthetig a anelir at y rheini sydd heb unrhyw gefndir ffurfiol mewn hyfforddiant therapi harddwch ac sydd am gael mynediad at astudiaeth ychwanegol o driniaethau therapi uwch ar lefelau 4 ac uwch.

### Mae'r cwrs hwn ar gyfer...

...y rheini sydd am gynnig triniaethau esthetig anfeddygol fel rhan o'u busnes

...y rheini sydd heb unrhyw gymwysterau therapi harddwch ffurfiol

### Cynnwys y cwrs

Mae'r cymhwyster hwn yn cynnwys unedau ar lefel 2 a 3 a gyfunwyd i ddarparu chi â'r wybodaeth greiddiol sy'n ofynnol i chi allu symud ymlaen yn uniongyrchol i hyfforddiant moddolrwydd penodol ar lefel 4+.

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Mae'r pynciau a gwmpesir ar y cwrs yn cynnwys:

Cynnal iechyd a diogelwch yn y salon
Dadansoddi croen a gofal croen yr wyneb
Ymgynghoriad a gofal cleientiaid
Anatomeg, ffisioleg a phatholeg
Gwyddoniaeth drydanol

Drwy gydol y cymhwyster hwn, byddwch yn datblygu eich gwybodaeth a dealltwriaeth o ofynion iechyd a diogelwch perthnasol, anatomeg, ffisioleg, patholeg a gwyddor drydanol, ochr yn ochr â phrotocolau dadansoddi croen a thriniaeth ddiogel ar gyfer gofal croen yr wyneb. Byddwch hefyd yn datblygu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau a fydd eu hangen arnoch chi i ymgynghori â chleientiaid a darparu cyngor penodol ar ôl-ofal a gofal cartref.

Cynhelir asesiadau ar ffurf arholiadau theori a osodir yn allanol, asesiadau ymarferol a phortffolio o dystiolaeth.

**Gofynion Mynediad**

Nid oes gofynion mynediad ffurfiol, ond bydd angen lefel dda o allu academaidd arnoch chi i'ch cefnogi chi drwy'r cwrs hwn.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Bydd yn ofynnol i chi wisgo gwisg glinig ac esgidiau addas.

Mae'r ffioedd cwrs yn cynnwys ffioedd dysgu a chofrestru. Mae'r ffioedd tiwtora yn ddyledus ar adeg archebu/ymrestru. Gellir talu hyn trwy ddebyd uniongyrchol dros bum rhandaliad os bydd angen. Os yw eich cyflogwr yn ariannu eich cwrs, bydd angen cadarnhad ysgrifenedig o hyn fel bod y coleg yn gallu trefnu i'w anfonebu.